Archwilio Cymru
Audit Wales

**Atodiad 1**

# Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol – Cyngor Sir Ddinbych

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4035A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Crynodeb o'r adroddiad 4

Adroddiad manwl

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham – cwmpas yr archwiliad hwn 6

Pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn 6

Strategaeth Ddigidol y Cyngor 7

Yr hyn a ganfuom: ceir gwendidau yn y sylfaen dystiolaeth a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i oleuo'i strategaeth ddigidol a'i drefniadau ar gyfer monitro ei gwerth am arian a'i heffaith 7

Atodiadau

Atodiad 1: cwestiynau allweddol a'r meini prawf archwilio 11

# Crynodeb o'r adroddiad

## Crynodeb o'r adroddiad

**Arddangosyn 1: crynodeb o'r adroddiad**

Mae'r arddangosyn isod yn crynhoi'r rheswm y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn, ein canfyddiadau allweddol a'n hargymhellion ar gyfer y Cyngor.

**Pam fod dull strategol o ymdrin â digidol yn bwysig**

1 Mae technoleg ddigidol yn allweddol i ddarparu ystod eang o wasanaethau cyngor mewn ffordd fwy darbodus, effeithlon ac effeithiol, ac mae hefyd yn ffordd bwysig i gynghorau gyflawni eu hamcanion llesiant a mynd ar drywydd datblygu cynaliadwy.

2 Mae bod â dull strategol eglur o ymdrin â digidol yn gallu dwyn nifer o fanteision megis:

- sefydlu gweledigaeth gyffredin ar gyfer defnyddio technoleg ddigidol a'r deilliannau bwriadedig i gymunedau lleol sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol y Cyngor;
- helpu i sicrhau bod defnydd cynghorau o dechnoleg ddigidol yn cyd-fynd â'u hamcanion strategol allweddol a chynlluniau a strategaethau eraill a'i fod wedi'i oleuo gan ddealltwriaeth dda am dueddiadau yn awr ac yn y dyfodol;
- lleihau'r risg o ddyblygu o fewn cynghorau a chyda phartneriaid;
- ystyried yr adnoddau a ddarperir ar gyfer datblygiadau digidol dros y tymor byr, canolig a hwy gyda'i gilydd; a
- darparu fframwaith i'w ddefnyddio i fonitro cynnydd dros y tymor byr, hir a chanolig.

**Ffocws ein harchwiliad**

3 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae dull strategol y Cyngor o ymdrin â digidol wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau'r Cyngor.

**Ein canfyddiadau allweddol**

4 Mae gan y Cyngor strategaeth eglur a gaiff ei deall gan swyddogion ac Aelodau. Mae'r strategaeth yn goleuo datblygiad prosiectau digidol o fewn meysydd gwasanaeth. Mae'r strategaeth hefyd yn cyd-fynd â chynlluniau strategol eraill y Cyngor.

5 Ni chafodd y strategaeth ei goleuo gan farn trigolion na ffynonellau data eraill a allai wella dealltwriaeth y Cyngor am faterion yn awr ac yn y dyfodol a allai effeithio ar ei ddull strategol.

6 Er bod y Cyngor yn gweithio gyda rhai partneriaid i gyflawni ei ddull strategol o ymdrin â digidol, nid yw wedi ystyried yr holl gyfleoedd posibl ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

7 Nid yw’r Cyngor wedi cyfrifo cost ei strategaeth ddigidol yn llawn nac wedi adnabod yr holl gyllid sy’n ofynnol i’w chyflawni.

8 Nid yw’r Cyngor yn mynd ati’n gyson i asesu effaith na gwerth am arian prosiectau digidol na’r strategaeth ddigidol yn ei chyfanrwydd.

**Ein hargymhellion i’r Cyngor**

**Cryfhau’r sylfaen dystiolaeth**

A1 I helpu i sicrhau bod ei strategaeth ddigidol nesaf yn seiliedig ar wybodaeth dda, dylai’r Cyngor dynnu ar sylfaen dystiolaeth ehangach sy’n cynnwys:

- cynnwys trigolion i ddeall eu hanghenion a’r rhwystrau posibl y maent yn eu hwynebu o ran cael mynediad at dechnoleg ddigidol a’i defnyddio; a
- defnyddio ystod o ffynonellau data allanol:
  - efallai y byddai ein meini prawf archwilio ar gyfer **Cwestiynau 1.1** ac **1.2** yn **Atodiad 1** o gymorth i’r Cyngor wrth ystyried yr argymhelliad hwn.

**Trefniadau partneriaeth a chydweithio**

A2 I helpu i sicrhau bod y Cyngor yn adnabod yr holl gyfleoedd posibl i wella gwerth am arian ac effaith ei ddull strategol trwy weithio mewn partneriaeth, dylai’r Cyngor:

- adnabod sefydliadau posibl y gallai weithio mewn partneriaeth gyda hwy; a
- lle y mae’n ymrwymo i drefniadau partneriaeth, datblygu trefniadau i asesu a monitro eu gwerth am arian.

**Cyfrifo costau’r strategaeth a darparu adnoddau ar ei chyfer**

A3 I helpu i sicrhau y gellir cyflawni ei strategaeth ddigidol a bod uchelgeisiau’r Cyngor yn cyd-fynd â’r adnoddau sydd ar gael, dylai’r Cyngor gyfrifo’n llawn beth yw cost y gweithgarwch y mae ei angen i’w chyflawni.

**Trefniadau ar gyfer monitro gwerth am arian ac effaith**

A4 I ddeall yn well beth yw effaith a gwerth am arian prosiectau digidol a’r strategaeth ddigidol, dylai’r Cyngor ddatblygu fframwaith ar gyfer asesu gwerth am arian prosiectau digidol a’i ddull strategol ar y cyfan, gan gynnwys i ba raddau y mae arbedion wedi’u cynllunio’n cael eu gwireddu.

# Adroddiad manwl

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham — cwmpas yr archwiliad hwn

1 Fe wnaethom adolygu dull strategol y Cyngor o ymdrin â digidol, ac yn benodol i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac i ba raddau y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

2 Mae ein canfyddiadau'n seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gyda sampl o Aelodau Cabinet ac uwch swyddogion. Cyfyngwyd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i oleuo ein canfyddiadau i'r ffynonellau hyn. Fe wnaethom y gwaith hwn yn y cyfnod rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2023.

3 Aethom ati i ateb y cwestiwn '**Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol, a yw'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**' Fe wnaethom hyn trwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A yw strategaeth ddigidol y Cyngor wedi'i goleuo gan ddealltwriaeth dda am dueddiadau yn awr ac yn y dyfodol?
- A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae'n dymuno ei gyflawni trwy ddefnyddio technoleg ddigidol?
- A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol?
- A yw'r Cyngor wedi darparu adnoddau ar gyfer cyflawni ei strategaeth ddigidol fel y gall ddwyn manteision hirdymor/ataliol?
- A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd?
- A yw'r Cyngor yn dysgu gwersi o'r ffordd y mae'n gweithio?

4 Mae **Atodiad 1** yn nodi'r cwestiynau manwl yr aethom ati i'w hateb ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i lunio ein canfyddiadau.

## Pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn

5 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

6 Roeddem yn ceisio:

- darparu sicrwydd y bydd strategaethau digidol cynghorau'n helpu i gyflawni amcanion llesiant mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau;
- darparu sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio eu strategaethau digidol;

- egluro sut y mae cynghorau'n defnyddio/cynllunio ar gyfer defnyddio technoleg ddigidol i ddiwallu anghenion pobl a chyflawni deilliannau gwell; ac
- ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus trwy adnabod a rhannu enghreifftiau o arferion/dulliau nodedig lle y bo'n berthnasol.

# Strategaeth ddigidol y Cyngor

7 Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn rhedeg o 2019 tan 2025 ac mae'n cwmpasu wyth maes allweddol:

- Cysoni systemau a thechnoleg i ddarparu gwasanaethau ar-lein
- Dull corfforaethol o gaffael TGCh
- Ail-lunio sut y mae'r Cyngor yn gweithio trwy dechnoleg
- Mynd i'r afael ag allgáu digidol a chefnogi economi ddigidol Sir Ddinbych
- Cydnerthedd a Pharhad Busnes
- Mantais gydweithredol
- Blaenoriaethu a rheoli disgwyliadau

8 Mae pob maes allweddol yn cynnwys camau gweithredu a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r strategaeth.

# Yr hyn a ganfuom: ceir gwendidau yn y sylfaen dystiolaeth a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i oleuo'i strategaeth ddigidol a'i drefniadau ar gyfer monitro ei gwerth am arian a'i heffaith

## Defnyddiodd y Cyngor sylfaen dystiolaeth gyfyngedig ac ni wnaeth ymgysylltu'n uniongyrchol â thrigolion wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol

9 Cafodd y strategaeth ddigidol gyfredol ei goleuo gan amrywiaeth o weithgarwch, gan gynnwys:

- gwerthusiad o effaith y strategaeth flaenorol;
- gweithdai gyda'r Prif Weithredwr, uwch swyddogion ac Aelodau; ac
- adolygiad o strategaethau digidol cyrff lleol a chenedlaethol i ddeall materion digidol ar draws y sector cyhoeddus ehangach.

10 Mae'r strategaeth hefyd yn adlewyrchu'r data a'r blaenoriaethau a gynhwyswyd mewn strategaethau mewnol ac allanol eraill, gan gynnwys Cynllun Corfforaethol y

Cyngor, Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a Fforwm Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

11 Ni ddefnyddiodd y Cyngor ffynonellau data allanol eraill megis data ar y boblogaeth a data economaidd-gymdeithasol ac, er enghraifft, adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Gallai defnyddio data ehangach helpu'r Cyngor i ddeall yn well beth yw'r tueddiadau yn awr a beth fyddant yn y dyfodol, ac achosion sylfaenol materion cyfredol a sut y gallai'r rhain newid dros amser.

12 Yn ystod y broses o ddatblygu ei strategaeth ddigidol, ni wnaeth y Cyngor ymgysylltu'n uniongyrchol â thrigolion i'w galluogi i gael mewnbwn i'r strategaeth. Barn y Cyngor oedd bod gan y strategaeth ffocws mewnol ar newid systemau a phrosesau, ac y byddai meysydd gwasanaeth, yr ymgynghorwyd â hwy ynghylch y strategaeth ddigidol, yn gallu bwydo barn eu defnyddwyr gwasanaethau i mewn. Fodd bynnag, trwy beidio â chynnwys amrywiaeth lawn ei gymunedau wrth ddatblygu ei ddull strategol, mae'r Cyngor yn creu risg o ddatblygu dull nad yw'n diwallu eu hanghenion, ac felly nad yw'n darparu gwerth am arian.

## Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a chydweithio, ond nid yw wedi ystyried yr holl gyfleoedd i gynyddu potensial y gweithgarwch hwn i'r eithaf

13 Mae'r Cyngor wedi archwilio ystod o gyfleoedd i gydweithio ar weithgarwch digidol, gan gynnwys:

- system gyllid newydd, y bwriadwyd yn wreiddiol iddi fod yn system ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, er na ddaeth y trefniant hwn yn ffaith.
- canoli darpariaeth TGCh ysgolion, a oedd yn cynnwys gwaith gyda Llywodraeth Cymru a hybiau rhanbarthol, i sicrhau cysondeb â strategaethau a chanllawiau cenedlaethol.
- gweithio gyda Twristiaeth Gogledd Cymru i drefnu bod rhagor o wybodaeth am dwristiaeth ar gael ar blatfformau digidol ystod o bartneriaid.

14 Mae'r strategaeth ddigidol hefyd yn nodi dull rhanbarthol o wella seilwaith digidol yng Ngogledd Cymru ac yn enwi Fforwm Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru, a'r Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol fel partneriaid tebygol.

15 Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi ceisio adnabod yr ystod lawn o bartneriaid posibl y gallai weithio gyda hwy wrth ddatblygu a chyflawni ei strategaeth ddigidol. Nid oes gan y Cyngor ychwaith drefniadau systematig i fonitro a gwerthuso gwerth am arian trefniadau partneriaeth y mae'n ymrwymo iddynt. Trwy beidio ag ystyried yr holl gyfleoedd posibl ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, gallai'r Cyngor fod yn colli cyfleoedd i wella effaith ei drefniadau a'u gwerth am arian, sut y mae'n ffurfioli ac yn monitro'r trefniadau hyn a sut y mae'n adnabod cyfleoedd ar gyfer cydweithio.

## Nid yw'r Cyngor wedi cyfrifo cost ei strategaeth yn llawn nac wedi adnabod adnoddau i'w chyflawni

16 Mae'r Cyngor wedi cyfrifo cost rhai prosiectau digidol sydd wedi'u cynnwys yn ei strategaeth ddigidol ac wedi dyrannu cyllid iddynt. Er enghraifft:

- £300,000 o gyllideb y Cynllun Corfforaethol i ddatblygu gwefan newydd a gwasanaethau hygyrch ar-lein;
- £200,000 o gronfeydd wrth gefn gwasanaethau i amnewid y systemau ariannol craidd cyfredol;
- £250,000 i gefnogi gwaith lleol i weithredu system rheoli gwybodaeth newydd ar gyfer gofal cymdeithasol fel rhan o ddiweddaru System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) gan Lywodraeth Cymru; a
- £220,000 o gyllideb y Cynllun Corfforaethol i hwyluso datrysiadau cymunedol ar gyfer mynediad digidol.

17 Mae'r Cyngor hefyd yn ariannu tîm o bedwar Partner Busnes sy'n gweithio gyda meysydd gwasanaeth i hyrwyddo'r strategaeth a chynorthwyo meysydd gwasanaeth i ddatblygu prosiectau digidol i wella gwasanaethau.

18 Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi nodi'r gost na'r cyllid ar gyfer gweddill y gweithgarwch a nodir yn ei strategaeth ddigidol.

19 Byddai nodi'r gost a'r adnoddau sy'n ofynnol i ariannu'r strategaeth ddigidol yn helpu'r Cyngor i asesu a ellid cyflawni ei gynlluniau ac a oeddent yn gallu dwyn manteision hirdymor.

## Mae gan y Cyngor wendidau yn ei drefniadau i adnabod gwerth am arian a gwerthuso effaith gweithgarwch digidol

20 Nid yw'r Cyngor yn mynd ati fel rhan o'r drefn arferol i gymhwyso'i drefniadau i werthuso effaith prosiectau digidol. Nid oes ganddo fethodoleg i gynorthwyo meysydd gwasanaeth i gyfrifo gwerth am arian mewn prosiectau digidol arfaethedig ychwaith.

21 Mae'r Cyngor yn monitro cynnydd prosiectau digidol. Mae'r grŵp Monitro a Datblygu TGCh yn cael diweddariadau misol gan brosiectau ac yn rheoli cofrestr risgiau i fonitro prosiectau. Mae prosiectau digidol ar raddfa ganolig a mawr hefyd yn cael eu monitro gan Fwrdd Prosiect a Noddwr Prosiect. Mae Aelodau Cabinet yn cael eu gwahodd i eistedd ar y Bwrdd Prosiect ar gyfer prosiectau yn eu portffolios hefyd.

22 Fodd bynnag, nid oes proses werthuso ffurfiol i adnabod unrhyw fesurau effeithlonrwydd a gaiff eu gwireddu ar ôl i brosiect digidol gael ei weithredu. Gofynnir i feysydd gwasanaeth adnabod cyfleoedd i gael gwerth am arian fel rhan o ddatblygu prosiectau digidol, ond nid oes proses ffurfiol i gyflawni hyn ac nid oes unrhyw ganllawiau i gynorthwyo meysydd gwasanaeth gyda'r dasg hon. Hefyd, nid oes unrhyw wiriadau i ganfod a yw gweithgarwch gwerthuso'n digwydd ym mhob

prosiect digidol ac nid oes mecanwaith i ddeall effaith y strategaeth ddigidol ar y cyfan.

23 O ganlyniad, nid yw'r Cyngor yn gallu adnabod effaith ei weithgarwch digidol na'i sicrhau ei hun bod y gweithgarwch hwn yn darparu gwerth am arian.

## Mae gan y Cyngor drefniadau i ddysgu gwersi o brosiectau digidol ond nid yw'n adolygu effeithiolrwydd ei ddull strategol ar y cyfan ac nid oes ganddo drefniadau i rannu gwersi a ddysgwyd ohono

24 Mae proses rheoli prosiect y Cyngor ar gyfer prosiectau ar raddfa ganolig a mawr yn cynnwys gwerthusiad o'r prosiect ar ôl ei weithredu, sy'n galluogi'r Cyngor i ddeall gwersi a ddysgwyd.

25 Fe adolygodd y Cyngor lwyddiant ac effaith ei strategaeth ddigidol flaenorol ac fe ddefnyddiodd ganfyddiadau'r gweithgarwch hwn i oleuo ei strategaeth gyfredol. Mae'r Cyngor hefyd wedi adolygu effaith COVID ac wedi defnyddio'r gwersi hyn i roi cymorth i weithredu gweithdrefnau gweithio hyblyg newydd. Roedd hyn yn cynnwys cydnabod angen i wella'i seilwaith digidol i alluogi'r newid hwn i ddigwydd.

26 Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor broses i sicrhau bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu'n fewnol mewn modd systematig. Mae hyn yn golygu y gallai'r Cyngor fod yn colli cyfleoedd i adnabod a rhannu gwersi a allai wella gwerth am arian ac effaith ei ddull strategol o ymdrin â digidol.

# Atodiad 1

## Cwestiynau archwilio a'r meini prawf archwilio

Isod, ceir y cwestiynau y ceisiom ni eu hateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i lunio ein canfyddiadau.

Y prif gwestiwn archwilio: **Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol, a yw'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**

**Arddangosyn 2: cwestiynau archwilio a'r meini prawf archwilio**

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 1. A yw strategaeth ddigidol y Cyngor wedi'i goleuo gan ddealltwriaeth dda am dueddiadau yn awr ac yn y dyfodol? | 1.1 A oes dealltwriaeth drylwyr am yr 'hyn sydd ohoni' (h.y. y galw presennol/problemau y mae angen rhoi sylw iddynt) a'r rhesymau dros hynny/achosion sylfaenol?<br><br>1.2 A oes dealltwriaeth drylwyr am effaith y ffactorau hirdymor, ac am yr heriau a'r cyfleoedd a allai ddeillio o hynny (e.e. risgiau a chyfleoedd)? | • Mae'r Cyngor wedi defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr am yr 'hyn sydd ohoni' a sut y mae'n debygol o newid. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth (gan gynnwys data) sy'n ymwneud â:<br>– heriau o ran cynaliadwyedd/cadernid gwasanaethau a darparu adnoddau.<br>– anghenion dinasyddion a chymunedau.<br>– achosion sylfaenol y galw/problemau presennol y mae rhoi sylw iddynt.<br>– dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol a'u heffeithiau posibl, e.e. cymdeithasol, economaidd/gwleidyddol, amgylcheddol, diwylliannol neu dechnolegol. Gallent gynnwys tueddiadau hysbys e.e. poblogaeth sy'n heneiddio, adnoddau naturiol sy'n lleihau ac, yn enwedig, datblygiadau technolegol. Gallant gynnwys hefyd y rhai sydd â lefel uwch o ansicrwydd, e.e. y swyddi a'r sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol.<br>• Mae'r dadansoddiad o'r 'hyn sydd ohoni' a sut y mae'n debygol o newid wedi cael ei oleuo'n dda gan weithgarwch cynnwys, fel y bo'n briodol, sy'n |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| | | adlewyrchu arfer da cydnabyddedig (e.e. Egwyddorion Cenedlaethol ar Gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, cyngor a chanllawiau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru).<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio ei sylfaen dystiolaeth yn effeithiol i:<br>– nodi'r camau yn ei ddull strategol o ymdrin â digidol sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol a pham, gan gynnwys sut y gallent fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau;<br>– goleuo penderfyniadau ynghylch ei ddefnydd o dechnoleg ddigidol sy'n ceisio taro cydbwysedd rhwng yr angen i gyflawni amcanion tymor byr a'r angen i gyflawni rhai tymor hwy. |
| 2. A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae'n dymuno ei gyflawni trwy ddefnyddio technoleg ddigidol? | 2.1 A yw'r Cyngor yn cynllunio dros raddfa amser briodol? | • Mae'r Cyngor wedi ystyried yr hyn y mae hirdymor yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull gweithredu digidol — h.y. pa mor bell ymlaen y gall/dylai gynllunio a pham (o leiaf ddeng mlynedd gan ystyried tueddiadau tymor hwy fel y bo'n briodol).<br>• Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall camau gweithredu gyflawni'r effaith orau dros ffrâm amser honno o ran deilliannau a'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau. Gallai hyn gynnwys ystyried pwyntiau ymyrryd priodol sy'n gysylltiedig â diffiniad y Comisiynydd o atal. (Ceir rhagor o wybodaeth yn: Ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebu — Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol).<br>• Mae'r Cyngor wedi gosod mesurau ar gyfer ei strategaeth ddigidol sy'n adlewyrchu effeithiau a gwerth am arian yn y byrdymor a'r hirdymor, gyda cherrig milltir sy'n adlewyrchu'r cynnydd fel y bo'n briodol.<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi sut y darperir adnoddau ar gyfer ei strategaeth ddigidol dros y tymor hwy cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol (gweler hefyd y meini prawf sy'n ymwneud ag integreiddio). |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| | 2.2 A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai ei strategaeth ddigidol eu cael, gan gynnwys:<br>• sut y gallai gyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol?<br>• sut y bydd ei chyflawni'n effeithio ar y pethau eraill y mae'n ceisio eu cyflawni (h.y. ei amcanion llesiant a'i flaenoriaethau ehangach)?<br>• sut y bydd ei chyflawni'n effeithio ar yr hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni (h.y. eu hamcanion llesiant)? | • Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall ei strategaeth ddigidol wneud cyfraniad ar draws y nodau llesiant.<br>• Mae staff sy'n datblygu'r strategaeth ddigidol yn deall yr hyn y mae cydweithwyr a phartneriaid yn ei wneud a sut y mae eu gwaith yn ymwneud â hynny, ac maent wedi ceisio integreiddio eu gwaith hwy gyda gwaith eu cydweithwyr o bob rhan o'r Cyngor a sefydliadau partner.<br>• Mae integreiddio'n amlwg yn aliniad y strategaeth ddigidol â strategaethau corfforaethol allweddol a chynlluniau gwasanaeth eraill. Er enghraifft y cynllun ariannol tymor canolig, cynllun y gweithlu, strategaethau rheoli asedau, y datganiad llesiant a chynlluniau lleihau carbon.<br>• Mae'r strategaeth ddigidol yn gyson â bwriadau strategol eraill, megis:<br>– profiad cwsmeriaid;<br>– rheoli'r galw/lleihau'r galw sy'n deillio o fethiant ac atal; a<br>– dylunio a gweithredu modelau darparu gwasanaethau newydd.<br>• Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn gyson â chynlluniau/strategaethau partneriaid lleol a chenedlaethol, gan gynnwys Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru a chynlluniau llesiant. |
| | 2.3 A oes dealltwriaeth eang a chyffredin am yr hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni? | • Mae gan gynghorwyr ac uwch swyddogion sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth ddigidol ddealltwriaeth gyffredin a chlir am yr hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni a'r effaith fwriadedig ar ddarparu gwasanaethau.<br>• Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei chyfleu'n glir i staff a phartneriaid a allai helpu i'w chyflawni. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 3. A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol? | 3.1 A yw'r Cyngor wedi adnabod pwy y mae angen iddo eu cynnwys? | • Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am bwy y bydd y strategaeth ddigidol yn effeithio arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ac am bwy y mae angen iddo eu cynnwys.<br>• Mae'r Cyngor wedi mynd ati'n effeithiol i gynnwys yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol, gan gynnwys o ffynonellau anhraddodiadol ac o'r rhai y gall fod wedi methu â'u cyrraedd yn flaenorol. |
| | 3.2 A yw'r Cyngor yn mynd ati'n effeithiol i gynnwys amrywiaeth lawn y bobl yr effeithir arnynt gan ei strategaeth ddigidol? | • Mae'r Cyngor wedi darparu cyfleoedd gwirioneddol i bobl ddylanwadu ar ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol o adeg gynnar, gan gynnwys cynrychiolwyr grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.<br>• Mae'r Cyngor wedi defnyddio canlyniadau gweithgarwch cynnwys i ddylanwadu ar ddyluniad a chyflawni ei strategaeth ddigidol. |
| | 3.3 A yw'r Cyngor yn cydweithio'n effeithiol gyda'r partneriaid cywir? | • Mae'r Cyngor yn cydweithio i sicrhau ei fod yn cyflawni gwell deilliannau a gwerth am arian trwy ei strategaeth ddigidol ac mae wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i gefnogi hyn, er enghraifft ar gyfer:<br>– rhannu neu gyfuno arbenigedd ac adnoddau;<br>– rhannu gwybodaeth;<br>– sicrhau bod monitro, gwerthuso ac atebolrwydd effeithiol, gan gynnwys ystyried gwerth am arian. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 4. A yw'r Cyngor wedi darparu adnoddau ar gyfer cyflawni ei strategaeth ddigidol fel y gall ddwyn manteision hirdymor/ataliol? | 4.1 A yw'r Cyngor yn deall goblygiadau hirdymor o ran adnoddau? | • Mae'r Cyngor wedi asesu costau a manteision defnyddio technoleg ddigidol i fuddsoddi mewn dulliau hirdymor, ataliol, a chost (ariannol ac o ran deilliannau) peidio â gwneud hynny.<br>• Mae'r Cyngor wedi meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno i gyflawni ei strategaeth ddigidol dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau oes gyfan) a sut y gallai reoli risgiau/talu'r costau hynny gan gynnwys, er enghraifft, mentrau 'buddsoddi i arbed' arfaethedig a gostyngiadau a reolir mewn dyled dechnegol.<br>• Mae'r Cyngor wedi cyfrifo a nodi unrhyw arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud trwy weithredu ei strategaeth ddigidol. |
| | 4.2 A yw'r Cyngor yn dyrannu adnoddau er mwyn cyflawni deilliannau gwell dros yr hirdymor? | • Mae camau gweithredu (gan gynnwys camau ataliol) sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a/neu well defnydd o adnoddau dros y tymor hwy'n cael eu hybu a'u cefnogi, hyd yn oed:<br>– lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor;<br>– lle y bo'r manteision yn debygol o gael eu cronni gan sefydliad arall neu eu priodoli i sefydliad arall. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 5. A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd? | 5.1 A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu'r cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a hwy? | • Mae'r Cyngor yn monitro costau a manteision cyflawni ei strategaeth ddigidol o safbwynt gwerth am arian.<br>• Mae'r Cyngor yn mesur y cyfraniad ehangach y mae'r strategaeth ddigidol yn ei wneud ar draws ei amcanion ei hun/amcanion partneriaethau.<br>• Mae'r cynnydd yn cael ei fesur yn erbyn amcanion tymor byr, canolig a hir. |
| 6. A yw'r Cyngor yn dysgu gwersi o'r ffordd y mae'n gweithio? | 6.1 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol? | • Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol yn rheolaidd, gan gynnwys:<br>– effeithiolrwydd ei weithgarwch cydweithredol;<br>– effeithiolrwydd ei weithgarwch cynnwys, gan gynnwys effaith y strategaeth ar ddefnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol;<br>– effaith y strategaeth ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig;<br>– darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y strategaeth ddigidol ar y cyfan o ran helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol.<br>• Mae'r Cyngor wedi adolygu gwersi a ddysgwyd o'i ymateb i'r pandemig ac mae'n cymhwyso'r gwersi hyn i'w strategaeth ddigidol. |
| | 6.2 A yw'r Cyngor yn rhannu gwersi a ddysgir o'i ddull o weithredu ei strategaeth ddigidol? | • Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgir o ddatblygu a chyflawni ei strategaeth ddigidol yn eang ar draws y sefydliad, a chyda phartneriaid lle y bo'n berthnasol. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.